Eluned Morgan AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Welsh Language and Lifelong Learning

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/P/EM/0721/18

Bethan Jenkins AC
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

6 Mawrth 2018

Annwyl Bethan,

Ymhellach at fy ymddangosiad gerbron y Pwyllgor ar 18 Ionawr ar gyfer sesiwn graffu ar y Gymraeg, mae'r llythyr hwn yn cynnwys rhagor o wybodaeth mewn ymateb i'r pwyntiau gweithredu a gofnodwyd gan y Clerc yn ystod y cyfarfod.

1. **Y gwerthusiad diweddaraf o ddeilliannau'r Cynllun Sabothol / Nifer yr athrawon sy'n dychwelyd i ysgolion ar ôl y cwrs i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

Cyhoeddwyd y gwerthusiad diweddaraf o'r Cwrs Sabothol, sef yr *Adolygiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysgol*, yn 2014. Seiliwyd yr astudiaeth hon ar farn y sawl a fynychodd y cwrs rhwng Ionawr 2011 a Rhagfyr 2012. Cwblhaodd cyfanswm o 324 o ymarferwyr y cyrsiau yn ystod y cyfnod hwn (Lefel Uwch: 115; Lefel Sylfaen: 113; Lefel Mynediad: 96).

Mae'n bwysig nodi mai'r cwrs Lefel Uwch yw'r unig gwrs wedi'i gynllunio i alluogi cyfranogwyr i ddychwelyd i'r ysgol i gynyddu faint maen nhw'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cynlluniwyd y cyrsiau Lefel Sylfaen a Lefel Mynediad ar gyfer ymarferwyr mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, gyda'r nod o ddatblygu eu sgiliau Cymraeg i'w caniatáu i wella'u gallu i addysgu'r Gymraeg fel pwnc ac i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y cwricwlwm.

Mae'r isod yn amlinellu'r canfyddiadau mewn perthynas â'r **cwrs lefel uwch**:

Ymatebodd 68 o'r athrawon a ddilynodd y cwrs Lefel Uwch i'r arolwg ar-lein (allan o gyfanswm o 115 oedd wedi cwblhau'r cwrs).

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gofynnwyd i gyfranogwyr nodi nifer yr oriau o addysgu cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yr oeddent yn eu darparu cyn ac ar ôl mynychu'r cwrs lefel uwch, gyda'r adolygiad yn cynnig amlinelliad o'r data yn ôl sector a chyfrwng iaith, gyda'r cafeat canlynol:

…mae'n bwysig nodi bod cyfrwng a chyd-destun sefydliadau yn penderfynu i raddau helaeth a oes yna gyfleoedd i gynyddu oriau o ddarpariaeth yn y Gymraeg. Mae'r syniad o 'oriau' o ddarpariaeth yn wahanol yn y sector uwchradd o'i gymharu â'r cynradd, lle yn aml nid oes blociau penodol o ddarpariaeth. Mae meintioli'r union oriau o ddarpariaeth yn y sector cynradd, felly, yn medru bod yn fwy heriol.

- I'r athrawon hynny mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (cynradd neu uwchradd) nid oedd disgwyl i'r Cynllun Sabothol arwain at gynnydd yn nifer yr oriau o ddarpariaeth: maent eisoes yn darparu trwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, roedd yr ymateb i'r holiadur yn cadarnhau bod y Cynllun, ym marn y sawl a ymatebodd, wedi gloywi sgiliau iaith a chryfhau dulliau addysgu.

- Adroddodd 18 allan o'r 30 o athrawon a fu ar y cwrs lefel uwch ac a oedd yn addysgu mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg bod yna gynnydd wedi bod yn yr oriau o ddarpariaeth Cymraeg yn eu hysgolion ers iddynt gwblhau'r cwrs. Roedd y dystiolaeth hefyd yn awgrymu bod mynychu'r cwrs wedi arwain at ddefnydd ehangach o'r Gymraeg ar draws ystod o bynciau mewn nifer o ysgolion.

- Adroddodd pob un o'r pedwar athro oedd yn addysgu mewn ysgolion dwyieithog a fu ar y cwrs uwch bod yna gynnydd wedi bod yn nifer yr oriau o ddarpariaeth Cymraeg.

- Cafwyd ymatebion i'r holiadur gan 22 o gyfranogwyr o'r sector addysg bellach a oedd wedi mynychu'r cwrs lefel uwch. O'r rhain, nododd chwech nad oedd yna gynnydd wedi bod yn nifer yr oriau o addysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog y maent yn eu darparu. Adroddodd 14 o gyfranogwyr bod nifer yr oriau a ddarperir ganddynt yn Gymraeg neu yn ddwyieithog wedi codi, a hynny yn sylweddol mewn rhai achosion.

Mae copi o'r adroddiad wedi'i atodi i'r llythyr hwn.

Fel y crybwyllais yn ystod cyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr, rwyf wedi siarad â phobl sydd wedi mynychu'r rhaglen sy'n dweud bod ôl-ofal yn hollbwysig. Adlewyrchir hynny yn y gwerthusiad hefyd. Rydym yn gweithio gyda'r consortia rhanbarthol i sicrhau bod ôl-ofal yn cael ei ddarparu a bod ymarferwyr yn parhau i wneud cynnydd ar ôl dychwelyd i'w hysgolion.

Rydym yn gwerthuso'r rhaglen yn barhaus er mwyn ei gwella, ac mae cynyddu'r gweithlu addysg sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg o bwysigrwydd strategol o dan strategaeth *Cymraeg 2050*. Gyda golwg ar hyn, mae'r gwaith o gomisiynu gwerthusiad pellach o'r Cynllun ar y gweill, gyda'r nod o ddechrau ar y gwerthuso yn yr haf am gyfnod o dair blynedd.

2. Cyfanswm staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio i baratoi safonau'r Gymraeg

Mater i'r Ysgrifennydd Parhaol yw capasiti adrannau oddi mewn i Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru.

3. Cyllid y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer 2017/2018

Ers sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) yn 2011, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i'r Coleg gynnal ei weithgareddau, sef cynnig trosolwg annibynnol yn ogystal â chynllunio, rheoli a chynnig cefnogaeth strategol i ddatblygu addysg uwch cyfrwng

Cymraeg ledled Cymru. Roedd y cyllid a ddarparwyd drwy CCAUC yn cynnwys cynnig ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg fel cymhelliant i ddilyn addysg uwch drwy'r Gymraeg.

O 2017-18 ymlaen, bu cyfrifoldeb gan Is-adran y Gymraeg am ariannu'r Coleg, a dyrannwyd £5.4m o gyllideb refeniw'r Is-adran at y diben hwn. (Roedd y cyllid ar gael yn sgil trosglwyddiad o'r gyllideb refeniw Addysg Uwch i Is-adran y Gymraeg). Yn ystod 2017-18, dyrannodd CCAUC £0.330m ychwanegol i gefnogi ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg.

Cafodd y cyllid a ddarparwyd ar gyfer 2017-18 ei gynnal ar y lefel a ddarparwyd gan CCAUC yn 2016-17. Roedd hyn yn gyson ag argymhellion adolygiad Diamond, a oedd yn argymell parhau i ariannu'r Coleg er mwyn hyrwyddo'r ddarpariaeth Gymraeg ym maes Addysg Uwch. Nododd y dylid cynnal y cyllid ar gyfer y Coleg a'i raglen ysgoloriaethau ar yr un lefel â blwyddyn academaidd 2016/17 fan lleiaf.

Ar 12 Rhagfyr 2017 cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad terfynol y grŵp gorchwyl a gorffen a oedd wedi adolygu rôl y Coleg at y dyfodol. Casgliad yr adroddiad hwn oedd y bydd angen cynnal buddsoddiad ym maes addysg uwch er mwyn cynnal y twf yn y ddarpariaeth a welwyd eisoes, ac na fydd y twf hwn yn gynaliadwy heb ddilyniant yn y buddsoddiad hwn. Wrth ystyried cyllid at y dyfodol a rôl ehangach y Coleg yn y sector ôl-16 yn sgil yr adolygiad, yn y dyfodol caiff cyllid ei ddyrannu mewn ymateb i flaenoriaethau ac argymhellion y grŵp adolygu a dderbyniwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

4. Sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro ac yn gwerthuso gwariant ar y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i fonitro cynnydd yn erbyn ei rhaglen waith. Mae hyn yn cynnwys monitro gwariant yn erbyn ei dyraniadau grant.

Er cysondeb, caiff y cyllid a ddyrennir gan y Ganolfan i'w rhwydwaith o 11 darparwr ledled Cymru ei gyfrifo gan ddefnyddio'r un gyfradd yr awr â darpariaeth Addysg Bellach arall a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu Pwyllgor Craffu Cymraeg i Oedolion annibynnol. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn, a'i brif nod yw craffu ar waith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a chynghori ar faterion fel gwerth am arian a sut mae'r Ganolfan yn ymateb i bolisïau'r Llywodraeth.

Yn gywir

Eluned Morgan AC/AM
Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes
Minister for Welsh Language and Lifelong Learning